

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: **Nos Iau Gorffennaf 4, 2013**

977. *Croeso*. Croesawyd pawb yn gynnes i'r cyfarfod gan y Maer, Mrs Dorothi Evans. Yn bresennol roedd y Cynghorwyr Dorothi Evans (Maer); Ivor Jones (Dirprwy-Faer); Dilwyn T. Jones; Shan Ranson; Dilys Evans; Edith Roberts; Sharon Evans; Eluned Jones; Eifion Roberts; John C. Williams; y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan a'r Clerc, Aeron Jones.

978. Ymddiheuriadau: Y Cyng. Alun Price.

979. Datgan Buddiant: Edith Roberts, Eluned Jones (Cais Cynllunio NP)

980. Cofnodion Mehefin 6, 2013. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir a'u harwyddo.

981. Materion yn codi o'r cofnodion.

a) Mantolen Ras Llyn Tegid. Y Clerc wedi cysylltu a Huw Antur Edwards ynglyn a'r cyfrif.

Crybwyllwyd y dylid defnyddio'r arian at achosion fydd o fudd i'r gymuned. Cafwyd trafodaeth ymhellach ac awgrymwyd aros tan y cyfarfod blynyddol. Y Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru i gael arweiniad.

b) Parc Cenedlaethol. Bu i'r maer fynychu diwrnod agored ym Mhencadlys y Parc Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth. Cafwyd amser buddiol iawn gyda sawl siaradwr gwych yn cymryd rhan. Pasiwyd pecyn i bob cynghorydd am wasanaethau y Parc Cenedlaethol.

982. Materion y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan.

Rhai sylwadau y mae'r Cynghorydd Sir yn edrych i mewn iddynt. Mae diffyg cae pel-droed yng Nghysgod y Coleg ar ol adeiladu Awel y Coleg. Cysylltu ag Tai Clwyd – angen ffens. Angen tacluso o gwmpas y Ganolfan Hamdden a hefyd tacluso ger y toiledau yn y Plase Bydd y Cynghorydd Sir yn trefnu i fynd o gwmpas gyda swyddogion gwasanaethau stryd i ddangos y problemau sydd angen eu sortio. Stad y biniau yn gyffredinol yn warthus yn y dref. Tyfiant gwair yn enfawr wrth fynedfeydd y dref.

Bydd Cor Meibion Cymru Toronto yn cynnal cyngerdd yn Ysgol y Berwyn ymhen y mis. Syniad i roi plac y Cyngor Tref yn anrheg iddynt. Y Maer i gyflwyno'r plac. Y Clerc i ymchwilio lle mae'r placiau yn cael eu cadw. Bydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn arwain y noson lle bydd disgyblion Bro Tegid a Bro Tryweryn yn cymeryd rhan.

983. Materion yr Heddlu.

Y Clerc heb roi ar yr agenda a rhoi gwahoddiad i'r Heddlu ddod i'r cyfarfod. Rhoi gwybod iddynt am y cyfarfid nesaf a gofyn iddynt a oes posib iddynt fynychu bob yn ail gyfarfod.

984. Rhestr asedau.

Y Clerc i wneud rhestr newydd ac i'w rhoi i'r Maer erbyn y cyfarfod nesaf.

Mae un fainc er cof am Joan Batten – cefn fflatiau Cysgod y Coleg angen sylw. Y Cynghorydd Dilwyn Morgan i edrych i mewn i'r sefyllfa.

985. Materion Cynllunio.

a) Caniatau ceisiadau NP5/53/437/A Cadw offer mast telathrebu ac offer cysylltiedig, - Ffatri Aykroyd a'i Feibion. Canuatau cais NP5/53/T416C – Newid defnydd Siop Gornel, 21 Heol Tegid.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc

- b) Cais NP5/53/411A. Cais ol-weithredol i gadw strwythur gardd a lle dan orchudd yn 83 Heol Tegid. Cafwyd trafodaeth ac eisiau ychwaneg o wybodaeth beth yw defnydd yr adeilad yn yr ardd gefn.
- c) Cais NP5/53/164C. Rhannol ddymchwel adeiladau presennol, adeiladu archfarchnad newydd, creu mynedfa newydd i gerbydau a cerddwyr a creu parcio cystylltiedig – safle cyn System Scaffolding, Uned 5 Parc Menter Y Bala. Trafodwyd y cynllun a penderfynwyd i wrthod y cais ohewydd sail diogelwch. Nid oes son am groesfan o gwbl yn y cais – mae hyn yn holl bwysig i gael rhyw fath o groesfan o stad yr hafan – oherwydd y bydd mwy o draffig a hefyd mae maes chwarae gerllaw ar y Grin. Diogelwch y cyhoedd yn holl bwysig.

986. Materion Cyllid.

Cafwyd caniatad i dalu y biliau canlynol

- a) Vodafone £5.12;
 b) Costau gweinyddol Partneriaeth Penllyn £840.
 c) Cyflog Clerc mis Mehefin £321.54;
 ch) G. Edwards, Glasfryn, Llanuwchllyn – tacluso Tomen Bala £600.00.
 d) Un Llais Cymru – aelod yn mynychu Islwyn Pritchard-Jones £65.00.
 dd) Trosglwyddo £500 i Gronfa'r Maer.

986. Gohebiaeth

1. Un Llais Cymru. a) rhifyn diweddaraf o Y Llais. Hefyd cais am arian tuag at Cofeb Genedlaethol Cymru – Fflandrys. Darllenwyd y llythyr gan y Maer. Ei nodi a'i roi gyda'r ceisiadau eraill.
2. Clwb Hoci Penllyn. Cais am gymorth ariannol. Nid oedd cyfeiriad na rhif ffon ar y llythyr. Y Cyng. Sharon Evans i ymholi.
3. Cyngor Gwynedd. Adran Gwasanaeth Cyfreithiol. Rhybydd fod gwaharddiad traffic ar ffordd Rhesdai Cambrian, Y Bala dechrau o Orffennaf 15fed am 7 niwrnod (gwaith nwy). (Awel yr Aran gynt). Dim gwrthwynebiad.
4. Cyngor Gwynedd. Adran Rheoleiddio. Deddf Trwyddedu. Cais am drwydded eiddo 81-83 Stryd Fawr Y Bala.
5. Parc Cenedlaethol Eryri. Gwybodaeth ynglyn a Chyfarfodydd yr Awdurdod am y flwyddyn 2013-14.
6. Ombwdsman. Adroddiad Blynyddol 2012/13.
7. Cyngor Gwynedd. Taflen yn egluro dull o arwsigo priffyrdd gan Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
8. Arriva. Derbyniwyd llythyr gan Mr. Gareth Owen, 38 Blaenddol, Y Bala (ar ran nifer o drigolion Y Bala) ynglyn a phryder a threfniant bysiau Arriva. Rhai bysiau ddim yn cyrraedd o gwbl. Penderfynwyd anfon llythyr at Arriva hefyd i Mr. Gareth Roberts, Trafnidiaeth Cyhoeddus Cyngor Sir Gwynedd.
9. Canolfan Bro Tegid. Is-osodiad Canolfan Bro Tegid heb glywed gan y Cyngor Tref ynglyn ag arwyddo'r cytundeb a anfonwyd Gorffennaf 2012. Penderfynwyd nodi y llythyr.
10. Y Clerc. Llythyr gan y Clerc, Aeron Jones yn ymddiswyddo gan roi mis o rybudd fel ag arwyddwyd ar y cytundeb. Ers cychwyn fel Clerc mae amgylchiadau personol wedi newid ac mae yn rhedeg busnes ei hun ac eisiau canolbwyntio ar y busnes. Penderfynwyd hysbysu yn y Cyfnod a rhoi dyddiad cau o Orffennaf 25ain.
11. GanBwyll. Llythyr yn dweud bod yr archwiliwr ar wyliau ond bydd yn anfon y manylion priodol ynglyn a 'Wales Road Casualty Reduction Partnership' yn fuan iawn.

989. Materion eraill.

1. *First Responders*. Eisiau dod i gyfarfod a Chyngor Tref y Bala yn yr Hydref i roi diweddariad o'u gwaith.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc

2. *Gan y Maer*. Llythyr o Milo, Tanzania. Cyswllt gydag Eglwys Y Bala. Adrian a Hilary Murray o'r Bala wedi bod yno. Penderfynu rhoi plac Cyngor Tref Y Bala iddynt. Y Placiau mewn bocs yn yr Henblas. Y Clerc i drefnu i gael yr agoriad i fynd i mewn.
3. *Cofio 70 mlynedd damwain Flying Fortress ar yr Arenig*. Bydd gwasanaeth ger yr Henblas ar Sul Awst 4ydd. Eisiau glanhau y plac ar y wal. Gofyn i Mr. Gwyn Pennant Roberts i'w glanhau.
4. *Ail beintio geiriau ar y gofeb*. Andy Asser wedi rhoi pris am ail beintio y du a hefyd yr aur ar y gofeb. Pris o £260. Cyn cytuno – cafwyd trafodaeth a oedd angen cael prisiau eraill (tendr). Y Clerc i gael arweiniad gan Un Llais Cymru. Os yw popeth yn dderbyniol – gofyn i Andy Asser gario ymlaen.
5. *Grwp Busnesau'r Bala*. Arwyddion newydd wedi eu gosod. Anfon llythyr o ddiolch iddynt am eu gwaith.
6. *Arwydd a map Cymdeithas y Beibl o flaen Banc Barclays*. Y arwydd eisiau ei lanhau. Y Cyng. Dilwyn Morgan yn fodlon gwneud y gwaith.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc